CYPE(5)-03-16 - Papur 1

Comisiynydd Plant Cymru

# Cynllun ar gyfer pob Plentyn a Pherson Ifanc: 2016–19

Hyrwyddo hawliau dynol plant a phobl ifanc

> **Fy uchelgais i yw Cymru lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal i gyflawni'r gorau sydd o fewn eu gallu.**
>
> Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

**Mae gwaith y Comisiynydd Plant yn cael ei arwain gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), ac mae hi'n ymdrechu i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llawn yng Nghymru.**

---

**Sefydliad annibynnol hawliau plant yw swyddfa'r Comisiynydd Plant, wedi'i sefydlu yn 2001. Prif nod y Comisiynydd yw amddiffyn a hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc.**

## Yn 2016 mae llawer iawn o blant a phobl ifanc Cymru yn byw bywydau diogel, hapus ac actif, ac maen nhw'n teimlo bod yr oedolion o'u cwmpas yn gwrando arnyn nhw ac yn eu parchu. Fodd bynnag, mae rhai grwpiau mawr o blant sydd ar eu colled mewn sawl ffordd:

- Mae plant a phobl ifanc eisiau teimlo'n ddiogel allan yn eu cymunedau lleol, a bod â phethau i'w gwneud. Mae plant o deuluoedd llai cefnog yn llai bodlon ar y cyfleusterau yn eu cymuned ac yn teimlo'n llai diogel nag eraill. Mae plant 3-7 oed am i'r Comisiynydd Plant wneud chwarae yn brif flaenoriaeth.
- Mae gormod o blant yn sôn am brofiadau o fwlio bob dydd, ac ym marn plant 7-18 oed, dyma ddylai fod yn brif flaenoriaeth i'r Comisiynydd Plant.
- Mae plant sydd angen help ychwanegol gyda iechyd meddwl yn aros yn rhy hir am y gofal cywir. Dyma brif flaenoriaeth rhieni a gweithwyr proffesiynol ar gyfer gwaith y Comisiynydd.
- Mae plant a phobl ifanc sydd angen gofal cymdeithasol a iechyd ychwanegol yn profi 'ymyl clogwyn' wrth gyrraedd 18 oed, gyda chynllunio a chefnogaeth gwael ar gyfer pontio.
- Mae mwy o blant yn derbyn gofal trwy drefniant maeth, gan berthnasau neu mewn lleoliad preswyl nag yn flaenorol, a does dim digon o'r plant yma'n cael gofal sefydlog na chanlyniadau digon da pan fyddan nhw'n gadael gofal.
- Mae plant yn cael neges gymysg, sef bod ganddyn nhw hawliau i'w cadw'n ddiogel o dan CCUHP, ond mae'r gyfraith yn rhoi llai o amddiffyniad rhag ymosodiad corfforol iddyn nhw nag sydd gan oedolion.
- Mae llawer o blant, pobl ifanc ac oedolion yn pryderu bod y ddarpariaeth i blant, fel canolfannau chwarae a ieuenctid, a chefnogaeth ariannol i deuluoedd â phlant, wedi colli mwy na grwpiau eraill yn ystod y blynyddoedd diwethaf o doriadau i gyllid cyhoeddus.

# Dyheadau'r Comisiynydd Plant ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru

## Erbyn 2019 rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni'r gwelliannau canlynol i blant:

- Bydd plant a phobl ifanc yn cael mynediad i'r gwasanaethau iechyd meddwl sydd eu hangen, a hynny'n brydlon. Bydd rhaglenni cryfach ar gyfer hybu iechyd a llesiant emosiynol yn ein gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, ein hysgolion a'n gwasanaethau ieuenctid

- Bydd gwell dealltwriaeth o brofiadau cyfoes plant o fwlio, a bydd mwy o ysgolion yn atal bwlio'n effeithiol ac yn mynd i'r afael ag e

- Bydd gwell mynediad i weithgareddau chwarae, diwylliant a hamdden gan y plant sy'n fwyaf tebygol o fod yn brin o'r cyfleoedd hynny, yn arbennig y rhai sy'n byw mewn tlodi a phlant anabl.

- Bydd y rhai sy'n gadael gofal yn cael gwell mynediad i opsiynau tai diogel, sicr, a chynnig swydd, addysg neu le mewn hyfforddiant

- Bydd gwell pontio i wasanaethau oedolion ar gyfer yr holl bobl ifanc sydd angen cefnogaeth iechyd a chymdeithasol barhaus

- Bydd plant yn cael yr un amddiffyniad cyfreithiol ag oedolion rhag ymosodiad corfforol

- Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn well mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys fy sefydliad fy hun

**Bydda i'n hyrwyddo'r gwelliannau yma trwy annog gwasanaethau cyhoeddus i ymrwymo i'r CCUHP a gwella sut maen nhw'n cynllunio a chyflawni eu gwasanaethau o ganlyniad. Bydda i'n ceisio dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth y Llywodraeth a newid eu ffurf fel eu bod yn cyflawni ym maes hawliau plant. Bydda i'n helpu plant a phobl ifanc sydd heb dderbyn eu hawliau ac yn ceisio ymdrin â goblygiadau systemig achosion o'r fath, gan herio gwasanaethau i wneud yn well yn y dyfodol. Bydda i'n gwneud y pethau hyn trwy wrando ar blant a phobl ifanc a chydweithio â nhw fel dinasyddion gweithredol sydd â chyfraniad pwysig i'w wneud i'w hysgolion, eu cymunedau a'u cenedl.**

**Bydda i'n gweithio gyda'r Comisiynwyr Plant eraill yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr i annog llywodraeth y Deyrnas Unedig i weithredu sylwadau terfynol Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, sydd i'w gyhoeddi ym mis Mehefin 2016.**



# Blaenoriaethau 2016-2019

- Iechyd meddwl, llesiant a mynd i'r afael â bwlio
- Tlodi ac anghydraddoldebau cymdeithasol
- Chwarae a hamdden
- Diogelwch (yn y gymuned, yr ysgol a'r cartref)
- Cynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP a hyrwyddo'r broses o'i fabwysiadu ar draws gwasanaethau cyhoeddus
- Pontio i oedolaeth ar gyfer yr holl bobl ifanc sydd angen cefnogaeth a gofal parhaus

## Cynllun ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc

Yn ystod y tair blynedd bydda i'n canolbwyntio ar bob grŵp oed o 0-18+ mewn cyfres o weithgareddau. Mae ymgynghoriad Beth Nesa || What Next wedi rhoi gwybodaeth i mi am flaenoriaethau plant o ran eu hawliau, a phryderon yr oedolion sydd â gofal amdanyn nhw neu sy'n gofalu amdanyn nhw.

Dangosodd fy ymgynghoriad Beth Nesa fod modd cynnwys plant o dan 7 oed i fynegi barn, a bydda i'n gweithio i sicrhau bod profiadau'r plant ifancaf yn cael eu gwrando a'u cydnabod. Gofynnodd plant o dan 7 i mi roi blaenoriaeth i gyfleoedd chwarae. Yn ystod y tair blynedd nesa bydda i'n hyrwyddo hawliau plant i gael chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a diwylliannol, beth bynnag yw eu hamgylchiadau.

Mae plant 7-18 oed wedi nodi mai bwlio yw eu prif flaenoriaeth. Bydda i'n gweithio gyda'r plant ac eraill i ganfod a hybu ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael â bwlio. Mae bwlio hefyd yn gysylltiedig â iechyd meddwl a llesiant – pryderon pennaf gweithwyr proffesiynol a rhieni.

Yn 2016-17 bydda i'n lansio prosiect tair blynedd i wella'r pontio o blentyndod i oedolaeth ar gyfer y rhai sydd angen cefnogaeth a gwasanaethau – mae hyn yn cynnwys rhai sy'n gadael gofal a rhai sydd â chyflyrau iechyd cronig ac anableddau.

Bydda i'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ar draws Cymru, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydda i'n sicrhau mod i'n gwrando ar y blant a'r bobl ifanc sy'n cael y trafferth mwyaf i gyrchu eu hawliau, gan gynnwys plant anabl, rhai o leiafrifoedd ethnig, ieithyddol a rhywiol. Bydda i'n mesur sut rwy'n ymgysylltu â gwahanol grwpiau ledled Cymru er mwyn i blant a phobl ifanc fedru fy ngwneud yn atebol am hynny.

## Sut bydda i'n gwneud fy ngwaith.

Mae gwaith y Comisiynydd Plant yn targedu materion hawliau ar 3 lefel

1. Darparu sylfaen ar gyfer polisïau a chyfreithiau sy'n ymwneud â hawliau plant – bydda i'n gweithio i ddylanwadu ar y rhain a'u newid fel eu bod yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi hawliau plant yn y canol.

2. Gweithredu'r polisïau a'r cyfreithiau hyn yn effeithiol ledled Cymru ac i bob grŵp o blant – bydda i'n monitro sut mae hawliau plant yn cael eu cyflawni, yn hyrwyddo arfer da, ac yn herio'r rhai sydd ddim yn parchu hawliau.

3. Profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc – bydda i'n gwrando ar blant a phobl ifanc ac yn ceisio sicrhau newidiadau gwirioneddol i ansawdd eu bywyd pob dydd a chyfleoedd cyfartal i gyflawni eu potensial.

Lle bydd angen, bydda i'n defnyddio'r pwerau a nodwyd ar fy nghyfer yn y ddeddfwriaeth i galw'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus i gyfrif am sut maen nhw'n cyflawni hawliau dynol plant a phobl ifanc.



Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru

## Nodau Strategol ar gyfer Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

### Nod cyffredinol[1]

**Cyflawni canlyniadau cadarnhaol ym mywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru, a'u gallu i gyrchu eu hawliau**

### Nodau Strategol (y Pedwar D / the Four Ps)

**Cadw hawliau plant yn ganolog i'n gwaith a gweithio gyda holl wasanaethau cyhoeddus Cymru i gyflawni'r un nod (Darpariaeth / Provision)**

**Cynorthwyo plant a phobl ifanc i gyrchu eu hawliau (Diogelwch / Protection)**

**Cynnwys arbenigedd plant a phobl ifanc wrth lywio a chyfeirio ein gwaith, a gweithio gyda holl wasanaethau cyhoeddus Cymru i gyflawni'r un nod (Dweud eich Dweud / Participation)**

**Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod bod ganddyn nhw bencampwr annibynnol o'r enw Comisiynydd Plant Cymru a bod ganddyn nhw hawliau o dan CCUHP (Deall eich Hawliau / Promotion)**

---

[1] Mae'r nodau a'r cynlluniau hyn wedi'i seilio ar y ffynonellau canlynol:
- Barn plant a phobl ifanc, gweithwyr proffesiynol a rhieni, a fynegwyd yn ymgynghoriad Beth Nesa ll What Next yn 2015.
- Ffynonellau eraill allweddol o dystiolaeth, gan gynnwys Monitor Llesiant Plant a Phobl Ifanc Cymru (cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015)
- Dadansoddiad o gyflwr presennol hawliau plant yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig fel yr adroddwyd i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn 2015, a rhestr materion y Pwyllgor sy'n deillio o sesiwn y pwyllgor ym mis Hydref 2015.

0808 801 1000 / 80800*
post@complantcymru.org.uk
* Tecstiwch ni am ddim (gan ddechrau eich neges â COM)

@complantcymru
www.complantcymru.org.uk

Ysgrifennwch:
**Comisiynydd Plant Cymru**
**Rhadbost RRGL XLYC BHGC**
**Abertawe SA7 9FS**